



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Daniel - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Democrataidd
(07385401877)

Bydd cyfarfod rhithwir o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 29AIN EBRILL, 2021** am **3.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 27 EBRILL 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2021 ac 11 Mawrth 2021.

5 - 12

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU

5. CAIS RHIF: 19/1081

Cais materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer Cam 2, Parc Llanilid, Llanilid (10/0845/34) a fydd yn cynnwys 421 uned preswyl a'r seilwaith cysylltiedig. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a / neu wybodaeth ychwanegol ar 07/12/20, 15/01/21, 18/02/21 a 31/03/21 (Derbyniwyd disgrifiad o'r datblygiad wedi'i ddiwygio ar 14/01/21 a 31/03/21),
Y tir ar yr hen Safle Glo Brig a'r tir i'r gogledd o'r A473, Llanilid

13 - 36

6. CAIS RHIF: 20/1342

11 annedd fforddiadwy a gwaith cysylltiedig. Derbyniwyd cynllun diwygiedig o'r safle (man storio biniau wedi'i adleoli ac ardal amwynder a rennir) a darluniau o'r rhan ychwanegol mewn perthynas â llain 6, ar 9 Mawrth 2021,

Hen safle Ysgol Gynradd Meisgyn, Heol yr Ysgol, Meisgyn, Pont-y-clun

37 - 58

7. CAIS RHIF: 20/1345

Amrywio amod 7 (gwerthu nwyddau) o ganiatâd cynllunio 98/4284/15, **Ffordd Tirwaun, Cwm-bach, Aberdâr**

59 - 74

8. CAIS RHIF: 20/1346

Amrywio amod 1 mewn perthynas â'r caniatâd cynllunio wedi'u cymeradwyo ar gyfer cais 18/0366/39, **Tirfounder Fields, Cwm-bach**

75 - 92

9. CAIS RHIF: 21/0258

Estyniad llawr cyntaf arfaethedig y tu cefn i'r adeilad.
62 Stryd Albany, Glynrhedynog

93 - 98

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

**10. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU
GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 05/04/2021 – 16/04//2021

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.

99 - 112

11. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd R Yeo, Y Cynghorydd D Williams ac Y Cynghorydd S Powderhill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Uwch Beiriannydd